# Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023

**2023 dsc 3**

## RHAN 3

ADEILADAU O DDIDDORDEB PENSAERNÏOL NEU HANESYDDOL ARBENNIG

## PENNOD 4

GORFODI RHEOLAETHAU SY'N YMWNEUD AG ADEILADAU RHESTREDIG

*Hysbysiadau gorfodi a ddyroddir gan Weinidogion Cymru*

PROSPECTIVE

### 134 Pŵer Gweinidogion Cymru i ddyroddi hysbysiad gorfodi

(1) Caiff Gweinidogion Cymru ddyroddi hysbysiad gorfodi os ydynt yn ystyried—

(a) bod gwaith sy'n golygu torri adran 88 (gofyniad i waith gael ei awdurdodi) neu amod y rhoddwyd cydsyniad adeilad rhestredig yn ddarostyngedig iddo wedi cael ei gyflawni neu yn cael ei gyflawni mewn perthynas ag adeilad rhestredig, a

(b) ei bod yn briodol dyroddi'r hysbysiad, gan roi sylw i effaith y gwaith ar gymeriad yr adeilad fel adeilad o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig.

(2) Cyn dyroddi'r hysbysiad, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r awdurdod cynllunio y mae'r adeilad yn ei ardal.

(3) Mae hysbysiad gorfodi a ddyroddir gan Weinidogion Cymru yn cael yr un effaith ag un a ddyroddir gan awdurdod cynllunio.

***Statws*** *Mae'r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn rhagolygol.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023, Adran 134. (See end of Document for details)*

(4) Mae adrannau 123 i 132 yn gymwys mewn perthynas â hysbysiad gorfodi a ddyroddir gan Weinidogion Cymru fel pe bai cyfeiriadau at awdurdod cynllunio yn gyfeiriadau at Weinidogion Cymru.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 134 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 212(2)**

**Statws**
Mae'r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn rhagolygol.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023, Adran 134.